GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Mr D P Lewis
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Ein cyf / Our ref:** GL/GLP/MLW/7275/013
**Eich cyf / Your ref:**
☎: 01248 384910
**Gofynnwch am / Ask for:** Linda Hughes
**Ffacs / Fax:** 01248 384937
**E-bost / Email:** Linda.hughes@wales.nhs.uk

**Dyddiad / Date:** 8 Mai 2012

Annwyl Mr Lewis

**GWEITHDREFNAU YMGYNGHORI A CHYFATHREBU**
**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill 2012 ynglŷn â'r uchod.

O ran y newidiadau brys a oedd yn angenrheidiol dros y Gaeaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gellid fod wedi gwella'r cyfathrebu, ac yn wir, ysgrifennodd y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yn ffurfiol at Gadeirydd y Bwrdd Iechyd i rannu ei bryderon.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod fod ymddiriedaeth a hyder o fewn cymunedau wedi dioddef yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae gwaith ar y gweill, fel y cytunwyd, i ddatblygu protocol gwaith lleol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r CIC ar gyfer ymdrin â newidiadau brys i wasanaethau, i ychwanegu at y protocol a gytunwyd yn flaenorol i ddiffinio cynigion newid sylweddol heb fod yn rhai brys. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi fframwaith cliriach ar gyfer unrhyw newid brys i'r dyfodol ac ar gyfer y cyfathrebu fydd ei angen i gefnogi hyn. Rhagwelwn y gallwn orffen y protocol gyda'r CIC yn ystod mis Mai.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sylwi fod y camau a gymerwyd yn ystod y Gaeaf yn seiliedig ar benderfyniadau'r clinigwyr oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau perthnasol ac mai rhai dros dro oeddynt. Os bydd unrhyw newidiadau parhaol yn cael eu cynnig, pe byddai'r rhain yn rhai sylweddol, byddem yn ymgynghori'n ffurfiol yn ôl gofyniad arweiniad Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

Grace Lewis-Parry
pp **GEOFF LANG**
**PRIF WEITHREDWR DROS DRO**

CYNGOR GWYNEDD
CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL
10 MAI 2012
Rhif Tracio: